Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Memorandwm Dealltwriaeth Arolygwyr Cymheiriaid ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)

## Rhagfyr 2022

## Rheoli Fersiwn

| Dogfen fersiwn | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Hannah Roderick | Medi 2018 | Gwreiddiol |
| 1.1 | Hannah Roderick | Ionawr 2019 | Diwygio gradd arolygiad prawf, gwybodaeth bersonol a theithio a chynhaliaeth. |
| 1.2 | Hannah Roderick | Mehefin 2019 | Diwygio i'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth. |
| 1.3 | Claire Ait-Hammi | Gorffennaf 2019 | Diwygio i'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth. |
| 1.4 | Claire Ait-Hammi | Rhagfyr 2019 | Cadarnhau'r ddarpariaeth gyflenwi ar gyfer arolygwyr tîm ADY undydd. |
| 1.5 | Dyfrig Ellis | Awst 2021 | Diwygiadau i:<br>• Eglurder ynghylch gofynion a disgwyliadau hyfforddiant cychwynnol / diweddaru a dysgu proffesiynol<br>• meddylfryd arolygu<br>• tôn llais |

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Diben y memorandwm dealltwriaeth | 1 |
| **I bwy mae'r memorandwm dealltwriaeth yn berthnasol?** | **1** |
| **A Cyfrifoldebau'r cyflogwr:** | **2** |
| Dewis a recriwtio | 2 |
| Hyfforddiant | 3 |
| Defnyddio | 3 |
| Gwerthuso | 3 |
| Iechyd a diogelwch | 4 |
| Indemniad | 4 |
| **B Cyfrifoldebau Estyn:** | **4** |
| Dewis a recriwtio | 4 |
| Hyfforddiant | 5 |
| Defnyddio | 5 |
| Gwerthuso | 5 |
| Iechyd a diogelwch | 5 |
| Treuliau | 6 |
| Ariannu rhyddhau athrawon | 6 |
| Gwrthdaro buddiannau | 6 |
| **C Cyfrifoldebau arolygwyr cymheiriaid:** | **7** |
| Hyfforddiant | 7 |
| Defnyddio | 7 |
| Gwerthuso | 8 |
| Iechyd a diogelwch | 8 |
| Rôl arolygwyr cymheiriaid | 8 |
| Gofynion meddalwedd yr YAR | 9 |
| Diogelu | 9 |
| Cod Ymddygiad | 9 |
| Gwrthdaro buddiannau | 10 |
| **Atodiad A**: Cymhwyster ar gyfer rôl arolygydd cymheiriaid | **11** |
| **Atodiad B**: Protocol ac arweiniad ar gyfer arolygwyr cymheiriaid | **13** |
| **Atodiad C**: Iechyd a diogelwch y tîm arolygu | **18** |

# Cyflwyniad

## Diben y memorandwm dealltwriaeth

1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau'r tri pharti (arolygydd cymheiriaid, cyflogwr ac Estyn) yn gysylltiedig â chyfranogiad arolygwyr cymheiriaid mewn hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant diweddaru, yn ogystal â gweithgareddau arolygu.

2 Bydd arolygwyr cymheiriaid sy'n cwblhau eu hyfforddiant a'u hasesiad cychwynnol yn llwyddiannus yn cael eu rhoi ar restr a fydd yn cynnwys gwybodaeth gan gynnwys cyfeiriadau e-bost, enwau, cyfeiriadau, manylion am gyflogwr presennol ac arbenigeddau. Mae'n bwysig bod arolygwyr cymheiriaid yn rhoi gwybod i Estyn am unrhyw newidiadau i'w cyfeiriad neu gyflogaeth. Gallant wneud hyn trwy system ar-lein Estyn ar gyfer proffiliau arolygwyr. Os yw'r arolygydd cymheiriaid yn newid cyflogaeth, rhaid iddo ddiweddaru ei broffil gyda'i sefydliad newydd, a hefyd diweddaru ei hepgoriadau. Rhaid i'r arolygydd cymheiriaid lenwi Ffurflen Cymeradwyaeth Cyflogwr newydd ac anfon hon yn ôl i Estyn.

3 Bydd Estyn yn defnyddio'r wybodaeth yn y rhestr dim ond i ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid a rhannu gwybodaeth ag arolygwyr cymheiriaid ynghylch datblygiadau arolygu a chyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol. Bydd arolygwyr cofnodol yn gallu gweld cyfeiriadau e-bost, enwau, cyfeiriadau ac arbenigeddau ar gyfer pob Arolygydd Cymheiriaid ar eu Proffil Arolygydd personol at ddibenion arolygu yn unig.

4 Mae'r partïon yn cydnabod dyletswydd Estyn i gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) ac mae'n deall y gallai fod angen i Estyn ddatgelu gwybodaeth benodol i drydydd parti. Bydd y cyflogwr ac arolygwyr cymheiriaid yn cynorthwyo Estyn i gydymffurfio â'r Ddeddf.

5 Mae'r partïon yn cydnabod y bydd arolygwyr cymheiriaid yn parhau i fod yn gyflogai'r cyflogwr ac na chaiff ei ystyried yn un o gyflogeion Estyn. Ni fydd arolygwyr cymheiriaid yn cyflwyno eu hunain fel petaent yn gyflogai Estyn nac yn asiant nac yn llefarydd ar ei ran.

# I bwy y mae'r Memorandwm Dealltwriaeth hwn yn berthnasol?

## Partïon

6 Mae'r memorandwm dealltwriaeth hwn yn berthnasol i'r cytundeb rhwng Estyn, y cyflogwr a'r arolygydd cymheiriaid.

7 Yn y telerau ac amodau hyn, ystyr ‘arolygydd cymheiriaid’ yw’r unigolyn sydd wedi gwneud cais am y rôl benodol hon, ac ystyr ‘cyflogwr’ yw’r sefydliad neu’r ysgol / UCD a gwblhaodd y datganiad ategol/ffurflen cymeradwyaeth cyflogwr i gefnogi’r cais.

8 Daw’r Memorandwm Dealltwriaeth i rym ar ddyddiad y llythyr yn cadarnhau bod yr unigolyn wedi’i ddewis i’w hyfforddi’n arolygydd cymheiriaid a bydd yn parhau oni bai bod un o’r partïon yn ei ganslo os bydd yr arolygydd cymheiriaid yn newid cyflogwr. Os bydd arolygwyr cymheiriaid yn newid cyflogwr, bydd angen iddynt lunio cytundeb newydd gydag Estyn a’r cyflogwr newydd.

9 Os bydd arolygydd cymheiriaid yn cael ei benodi’n Aelod o’r Senedd neu’n Aelod Seneddol, ni fydd yr arolygydd cymheiriaid yn gallu parhau i gael ei ddefnyddio mewn arolygiad.

10 Gall unrhyw un o’r partïon derfynu’r cytundeb hwn trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i’r ddau barti arall o leiaf 30 diwrnod cyn y dyddiad y daw’r terfynu i rym.

11 Yn sgil terfynu’r cytundeb hwn, bydd enw’r arolygydd cymheiriaid yn cael ei dynnu o restr Estyn o arolygwyr cymheiriaid cymeradwy.

## A Cyfrifoldebau’r cyflogwr

**Mae’r cyflogwr yn cytuno i’r canlynol:**

### Dewis a recriwtio

12 Bydd darpar arolygwyr cymheiriaid yn cyflwyno’u cais i Estyn a bydd cyflogwr/ysgol yr arolygydd cymheiriaid yn cefnogi’r cais (nid yw cefnogaeth y cyflogwr yn berthnasol i ysgolion annibynnol). Hefyd, bydd angen i’r cyflogwr ardystio bod yr ymgeisydd yn athro effeithiol a phrofedig, a bod ganddo’r profiad perthnasol fel yr amlinellir yn Atodiad A. Wrth gytuno i aelod staff gael hyfforddiant ac asesiad cychwynnol ar gyfer bod yn arolygydd cymheiriaid, bydd yr ysgol neu’r UCD yn ymrwymo i ryddhau’r unigolyn ar gyfer hyfforddiant, paratoi a defnyddio, yn unol â’r cytundeb hwn.

13 Mae’n ofynnol bod pob arolygydd cymheiriaid sy’n cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgarwch arolygu wedi cael y dystysgrif briodol a diweddar ar gyfer cliriad (o fewn y tair blynedd diwethaf) gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, trwy ei gyflogwr. Os yw’r arolygydd cymheiriaid yn aelod o’r gwasanaeth diweddaru, mae’n ofynnol iddo roi caniatâd ysgrifenedig i Estyn fynd at ei dystysgrif gan y GDG, ar-lein, bob tair blynedd. Mae hyn yn golygu bod disgwyl i bob arolygydd cymheiriaid adnewyddu ei gliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd er mwyn parhau â’i statws arolygydd cymheiriaid. Mae Estyn yn cadw’r hawl i wirio bod hyn ar waith ar unrhyw adeg. Bydd y cyflogwr a’r awdurdod cyhoeddi yn hysbysu Estyn os daw i wybod am unrhyw beth yn gysylltiedig â chofnod yr unigolyn a allai fwrw amheuaeth ar ei addasrwydd i gymryd

rhan mewn arolygiadau. Dylai arolygwyr cymheiriaid gysylltu â'u cyflogwr os nad ydynt yn siŵr am ddyddiad neu addasrwydd eu cliriad blaenorol.

**Hyfforddiant**

14 Bydd y cyflogwr yn rhyddhau darpar arolygwyr cymheiriaid i'w galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddiant asesedig, a fydd yn cynnwys:

a) Cyfarfod gweithgarwch cyn-cwrs; gall hwn fod yn weithgaredd ar-lein neu'n weithgaredd wyneb yn wyneb
b) Darllen a thasgau cyn-cwrs
c) Modiwlau hyfforddiant ac asesiadau (fel arfer dros gyfnod o 2 ddiwrnod); gall hwn fod yn weithgaredd ar-lein neu'n weithgaredd wyneb yn wyneb
ch) Arolygiad(au) prawf

15 Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau pob rhan o'r hyfforddiant yn llwyddiannus i gymhwyso'n arolygydd cymheiriaid.

16 Trwy gefnogi cais ei aelod staff am hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid, mae'n rhaid i'r cyflogwr gytuno i ryddhau'r aelod staff ar gyfer hyfforddiant diweddaru blynyddol, gan ei fod yn orfodol ar gyfer y rôl. Os na fydd arolygydd cymheiriaid yn cymryd rhan mewn hyfforddiant diweddaru am ddwy flynedd yn olynol, ni fydd cyfleoedd i'w ddefnyddio yn cael eu cynnig hyd nes bydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, fel salwch neu absenoldeb mamolaeth/tadolaeth/rhiant.

**Defnyddio**

17 Dylai'r cyflogwr weithio mewn partneriaeth ag Estyn i ryddhau staff i gymryd rhan mewn hyfforddiant diweddaru a gweithgareddau arolygu. O dan amgylchiadau eithriadol yn unig, fel secondiad i'r awdurdod lleol/consortiwm rhanbarthol, y bydd yn gwrthod rhyddhau staff neu'n tynnu staff yn ôl o ddyletswyddau arolygu ar fyr rybudd.

**Gwerthuso**

18 Ar ddiwedd pob arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol/AEM yn cwblhau gwerthusiad o berfformiad pob aelod o'r tîm arolygu sydd dan gontract, gan gynnwys yr arolygydd cymheiriaid. Bydd gwaith arolygydd cymheiriaid mewn arolygiad yn cael ei werthuso yn unol â'r polisi sicrhau ansawdd ac arweiniad cysylltiedig ar wefan Estyn.

19 Os bydd diffygion sylweddol yng ngwaith arolygydd cymheiriaid, bydd yn cael ei gynorthwyo yn y lle cyntaf gan Estyn trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol. Fodd bynnag, os bydd y diffygion yn parhau neu os bydd arolygwyr cymheiriaid yn torri cod ymddygiad Estyn, ni chânt eu defnyddio mewn arolygiadau pellach.

**Iechyd a diogelwch**

20 Bydd y cyflogwr yn sicrhau bod ei arolygwyr cymheiriaid enwebedig o gymeriad da a'u bod wedi dangos eu gallu i weithio'n ddiogel. Mae'r cyflogwr yn cadw ei ddyletswydd statudol fel cyflogwr i ofalu'n rhesymol am ddiogelwch arolygwyr cymheiriaid, hyd yn oed pan fyddant yn ymweld ag ysgolion neu UCDau eraill ac yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi arolygwyr cymheiriaid.

**Indemniad**

21 Rhaid i'r cyflogwr indemnio Estyn, y Goron a/neu ei Gweinidogion, a'u cyflogeion, swyddogion, gweision ac asiantau (bob un ohonynt yn “Berson sydd wedi ei Indemnio”), a chynnal yr indemniad hwnnw, o ran:

(a) pob atebolrwydd, colled a niwed (gan gynnwys, heb gyfyngiad, colled economaidd a cholled anuniongyrchol a chanlyniadol), costau a threuliau (gan gynnwys, heb gyfyngiad, treuliau cyfreithiol) y mae Person sydd wedi ei Indemnio yn mynd iddynt; a/neu

(b) bob hawliad, gweithred ac achos y mae trydydd parti yn eu dwyn yn erbyn Person sydd wedi ei Indemnio; a/neu

(c) os, ac i'r graddau yr oedd unrhyw golled, niwed, anaf personol neu farwolaeth a ddioddefodd yr arolygydd cymheiriaid wedi'i achosi gan esgeulustod y Person hwnnw sydd wedi ei Indemnio), pob hawliad, gweithred ac achos a ddygir yn erbyn Person sydd wedi ei Indemnio gan neu ar ran yr arolygydd cymheiriaid; ym mhob achos yn deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i, neu mewn perthynas, â chyfranogiad yr arolygydd cymheiriaid yn y rhaglen arolygwyr cymheiriaid.

## B Cyfrifoldebau Estyn

**Mae Estyn yn cytuno i'r canlynol:**

**Dewis a recriwtio**

22 Bydd hysbysebion yn gwahodd ceisiadau i hyfforddi'n arolygydd cymheiriaid yn cael eu rhoi ar wefan Estyn. Hefyd, gallai Estyn gysylltu ag ysgolion / UCDau a gwahodd ceisiadau am hyfforddiant gan ddarpar arolygwyr cymheiriaid. Bydd Estyn yn ystyried yr holl geisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr addas i gael hyfforddiant. Byddant yn cael eu nodi ar sail y meini prawf a amlinellir yn **Atodiad A**. Yn ogystal, bydd unrhyw ymarferwr presennol sydd wedi'i ailhyfforddi'n arolygydd ychwanegol neu'n Arolygydd Cofnodol gan Estyn ar gyfer cylch arolygu 2017-2023 yn gymwys i fod yn arolygydd cymheiriaid, a bydd yn ofynnol iddo fynychu'r holl ddigwyddiadau hyfforddiant diweddaru a throsi blynyddol.

## Hyfforddiant

23 Bydd Estyn yn darparu rhaglen hyfforddi ac asesu ar gyfer darpar arolygwyr cymheiriaid. Dim ond y rhai sy'n bodloni cod ymddygiad Estyn ac yn cwblhau'r asesiad yn llwyddiannus fydd yn cael eu penodi'n arolygwyr cymheiriaid. Dim ond yr arolygwyr cymheiriaid hynny sydd â thystysgrif ddilys y GDG (cyflwynir o fewn tair blynedd i'r digwyddiad) fydd yn cael eu gwahodd i hyfforddiant diweddaru.

## Defnyddio

24 Bydd Estyn yn defnyddio arolygwyr cymheiriaid am uchafswm o bum niwrnod mewn unrhyw arolygiad o ysgol neu UCD unigol, ac uchafswm o wyth diwrnod mewn arolygiad o ysgol ffederal. Fel arfer, byddant yn cael eu defnyddio am uchafswm o dri arolygiad ym mhob blwyddyn academaidd. Fel arfer, ni fydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio mewn arolygiad ychwanegol heb gytundeb y cyflogwr.

25 Fel arfer, bydd Estyn yn rhoi tymor o rybudd i arolygwyr cymheiriaid a'u hysgol neu UCD wrth wahodd arolygwyr cymheiriaid i gymryd rhan mewn arolygiad craidd, ymweliad arolygu dilynol neu arolwg thematig. Mae Estyn yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig i ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiad yn ôl ar fyr rybudd mewn amgylchiadau eithriadol.

26 Bydd Estyn yn sicrhau bod y Cydlynydd Arolygu (CydAr) yn bwynt cyfeirio cyffredinol cyn arolygiadau, a bydd yr Arolygydd Cofnodol yn bwynt cyswllt ar gyfer arolygwyr cymheiriaid yn ystod arolygiad ac yn syth wedi arolygiad.

## Gwerthuso

27 Ar ddiwedd pob arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn cwblhau gwerthusiad o berfformiad pob aelod o'r tîm arolygu sydd dan gontract, gan gynnwys yr arolygydd cymheiriaid. Bydd gwaith arolygydd cymheiriaid mewn arolygiad yn cael ei werthuso yn ôl y polisi sicrhau ansawdd ac arweiniad cysylltiedig ar wefan Estyn.

28 Os oes diffygion sylweddol yng ngwaith arolygydd cymheiriaid, bydd yn cael ei gynorthwyo yn y lle cyntaf gan Estyn trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol. Fodd bynnag, os bydd y diffygion yn parhau neu os bydd arolygwyr cymheiriaid yn torri cod ymddygiad Estyn, ni chânt eu defnyddio mewn arolygiadau pellach.

## Iechyd a diogelwch

29 Wrth gydymffurfio â deddfwriaeth ac arweiniad iechyd a diogelwch, mae Estyn yn disgwyl bod yr ysgol / UCD sy'n cael ei harolygu wedi cynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch addas neu'n gallu gwirio bod asesiadau risg iechyd a diogelwch wedi'u cynnal cyn arolygiad.

30 Caiff materion iechyd a diogelwch eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddiant ar gyfer darpar arolygwyr cymheiriaid.

## Treuliau

31 Bydd Estyn yn ad-dalu treuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol i arolygwyr cymheiriaid pan gânt eu defnyddio mewn arolygiadau, gan ddefnyddio'r cyfraddau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Milltiredd Car** | **45c y filltir** |
| **Cinio (uchafswm)** | **Hyd at £9** |
| **Pryd bwyd gyda'r nos (aros dros nos os bydd dros 40 milltir o gartref)** | **Hyd at £27** |

**D.S. lle defnyddir cludiant cyhoeddus neu telir ffioedd parcio, atodwch dderbynebau i'r ffurflen hawlio er mwyn cael ad-daliad.**

32 Bydd Estyn yn darparu llety pan fydd yr arolygydd cymheiriaid yn byw dros 40 milltir i ffwrdd o leoliad yr arolygiad. Ad-delir costau teithio i ddarpar arolygwyr cymheiriaid ar gyfer cyrsiau hyfforddiant ac asesu cychwynnol Estyn.

33 Ni fydd Estyn yn ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth i arolygwyr cymheiriaid ar gyfer cyrsiau hyfforddiant diweddaru.

## Ariannu rhyddhau athrawon

34 Bydd Estyn yn cyfrannu £150 y dydd ar gyfer rhyddhau athro am y cyfnod ar safle'r ysgol neu'r UCD sy'n cael ei harolygu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw arolygwyr cymheiriaid sy'n mynychu arolygiad fel aelod o'r tîm am ddiwrnod yn unig, er enghraifft i arolygu'r ddarpariaeth ADY. Nid yw Estyn yn talu costau staff cyflenwi ar gyfer cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddiant Estyn.

## Gwrthdaro buddiannau

35 Ni fydd Estyn yn defnyddio arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiadau ysgolion neu UCDau pan fydd buddiannau yn gwrthdaro. Bydd gwrthdaro yn cynnwys unrhyw gysylltiadau, perthynas neu wybodaeth flaenorol neu bresennol ynghylch ysgolion neu UCDau eraill ac unrhyw ddyletswyddau a gyflawnwyd fel dilyswyr allanol. Dylai arolygwyr cymheiriaid gyfeirio at y Polisi Gwrthdaro Buddiannau ar wefan Estyn a diweddaru eu proffil arolygydd gan roi manylion am wrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig. Os daw arolygydd cymheiriaid yn ymwybodol o achos o wrthdaro buddiannau, dylai gysylltu â'r Cydlynydd Arolygu yn Estyn i drafod.

## C Cyfrifoldebau arolygwyr cymheiriaid

**Mae arolygwyr cymheiriaid yn cytuno i'r canlynol:**

### Hyfforddiant

36 Mae arolygwyr cymheiriaid yn cytuno i gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddi ac asesu, a fydd yn cynnwys:

- **Cyfarfod gweithgarwch cyn-cwrs**
  Cyfarfod gweithgarwch cyn-cwrs cyn y diwrnodau asesu wyneb yn wyneb i gyflwyno'r fframwaith arolygu. Gall hwn fod yn weithgaredd ar-lein neu'n weithgaredd wyneb yn wyneb.

- **Darllen a thasgau cyn-cwrs**
  Bydd darpar arolygwyr cymheiriaid yn ymgyfarwyddo â dogfennau allweddol Estyn, fel 'Sut rydym ni'n arolygu?' a 'Beth rydym yn ei arolygu?'

  **Dau ddiwrnod o fodiwlau hyfforddi ac asesiadau**

  Mae hyn yn cynnwys asesiadau llafar ac ysgrifenedig. Gall hwn fod yn weithgaredd ar-lein neu'n weithgaredd wyneb yn wyneb.

- **Arolygiad(au) prawf**
  Fel arfer, mae'n rhaid i'r darpar arolygydd cymheiriaid gael gradd C neu'n uwch ar Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) gan yr Arolygydd Cofnodol ar ddiwedd yr arolygiad er mwyn i Estyn ei ddefnyddio mewn arolygiadau pellach.

37 Ar gyfer yr holl weithgareddau wyneb yn wyneb, bydd Estyn yn darparu llety ac yn ad-dalu darpar arolygwyr cymheiriaid am deithio i gyrsiau hyfforddiant cychwynnol. Ni fydd Estyn yn talu am ryddhau athrawon i fod yn bresennol mewn cyrsiau hyfforddiant.

38 Bydd cyrsiau hyfforddiant diweddaru blynyddol o ddiwrnod o leiaf yn cael eu cynnal ar gyfer pob arolygydd cymheiriaid. Gall y digwyddiadau hyn fod yn weithgareddau ar-lein neu'n weithgareddau wyneb yn wyneb. Mae cymryd rhan mewn hyfforddiant diweddaru blynyddol yn orfodol ar gyfer y rôl. Byddai peidio â chymryd rhan mewn hyfforddiant diweddaru blynyddol am ddwy flynedd yn olynol yn golygu na fydd cyfleoedd defnyddio yn cael eu cynnig i arolygwyr cymheiriaid hyd nes byddant wedi cyflawni hyfforddiant diweddaru, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

### Defnyddio

39 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cadarnhau eu bod wedi cael gwiriad clirio manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a byddant yn rhoi gwybod i Estyn am unrhyw ffactorau perthnasol yn gysylltiedig â'u GDG fel amod o gael eu defnyddio. Bydd y gwiriad wedi'i wneud o fewn y tair blynedd diwethaf, gyda gwiriad yn ôl y categori

Gweithlu Plant. Dylai arolygwyr cymheiriaid gyfeirio at bolisi Estyn ar ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar wefan Estyn.

40 Cyn yr arolygiad, bydd angen i arolygwyr cymheiriaid fod yn gyfarwydd â phapur briffio'r tîm gan yr Arolygydd Cofnodol, sy'n amlinellu'r wybodaeth sylfaenol am drefn yr arolygiad. Yn gynnar yn ystod yr arolygiad, bydd angen i arolygwyr cymheiriaid archwilio dogfennau allweddol sy'n cael eu nodi gan yr Arolygydd Cofnodol.

41 Bydd y wybodaeth hon ar gael yn Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) yr ysgol / UCD. Yn ogystal, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn darparu'r wybodaeth hon ar ddechrau'r arolygiad. Ni ddisgwylir i arolygwyr cymheiriaid ymgymryd ag unrhyw weithgarwch arolygu, fel craffu ar ddogfennau'r ysgol / UCD cyn wythnos yr arolygiad.

## Gwerthuso

42 Ar ddiwedd pob arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofnodol / AEM yn cwblhau gwerthusiad o waith yr arolygydd cymheiriaid. Bydd y broses yn rhoi cyfle i arolygwyr cymheiriaid gwblhau hunanasesiad. Yna, bydd yr Arolygydd Cofnodol / AEM yn cwblhau gwerthusiad cyffredinol o berfformiad. Bydd manylion pellach am y system werthuso yn cael eu darparu yn yr hyfforddiant cychwynnol ac maent ar gael ar wefan Estyn.

43 Os oes diffygion sylweddol yng ngwaith arolygydd cymheiriaid, bydd yn cael cymorth yn y lle cyntaf gan Estyn trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol. Fodd bynnag, os yw'r diffygion yn parhau neu os yw arolygydd cymheiriaid yn torri cod ymddygiad Estyn, ni chaiff ei ddefnyddio mewn arolygiadau pellach.

## Iechyd a diogelwch

44 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn dilyn yr arweiniad iechyd a diogelwch a ddarparwyd gan yr Arolygydd Cofnodol fel rhan o friff yr arolygiad. Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill y mae eu gweithredoedd neu eu hanwaith yn effeithio arnynt yn ystod yr arolygiad. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn **Atodiad C**.

45 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cymryd cyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain, yn sensitif i ddiogelwch pobl eraill ac yn cydweithredu'n llawn â'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch sydd ar waith. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn **Atodiad B**.

## Rôl arolygwyr cymheiriaid

46 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn gweithio ochr yn ochr â'r Arolygydd Cofnodol sy'n cynnal yr arolygiad penodol, ac o dan ei arweiniad.

47 Caiff dyletswyddau arolygwyr cymheiriaid eu rhestru yn **Atodiad B** y Protocol a'r Arweiniad ar gyfer arolygwyr cymheiriaid.

48 Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn neilltuo tasgau penodol i arolygwyr cymheiriaid ar ddechrau'r arolygiad. Yn achos arolygiad o ysgolion ffederal, gallai hyn gynnwys gweithio ar fwy nag un safle.

## Gofynion meddalwedd yr YAR

49 Bydd yn ofynnol i arolygwyr cymheiriaid ddod â gliniadur at eu defnydd eu hunain yn ystod y cyfnod arolygu ac arno:

- Microsoft Word 2010 (neu ddiweddarach)
- cysylltiad â'r rhyngrwyd (rhaid bod eich gliniadur wedi'i alluogi ar gyfer WiFi, neu rhaid i chi drefnu'ch dull eich hun o gysylltu â'r rhyngrwyd)
- system weithredu Windows (XP neu uwch)
- porwr rhyngrwyd (Edge, Internet Explorer 10 neu 11 neu fersiwn ddiweddaraf Chrome/Firefox/Safari)

**Sylwch: i ddefnyddio system dempledi'r Ffurflenni Barnau ar yr YAR, bydd arnoch angen fersiwn lawn o MS Word 2010 (neu ddiweddarach)**

50 Mae system yr YAR yn adnodd sy'n seiliedig ar Microsoft, felly mae perygl na ellir defnyddio cyfrifiaduron Apple Mac yn llwyddiannus pan fyddant yn defnyddio 'PC emulation'. Ni ellir defnyddio llechi (gan gynnwys iPads) ar hyn o bryd.

51 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn darparu copi electronig o ffurflen farnau sy'n cynnwys eu canfyddiadau arolygu a'r dystiolaeth ategol. Rhaid darparu'r ffurflen farnau wedi'i llenwi gan ddefnyddio Microsoft Word 2010 (neu ddiweddarach) a defnyddio'r templed a ddarperir yn yr Ystafell Arolygu Rithwir ar ddechrau'r arolygiad. Mae'r holl wybodaeth a thystiolaeth yn eiddo bob amser i Estyn.

52 Mae'n rhaid i arolygwyr cymheiriaid gadw at Bolisi Sicrwydd Gwybodaeth Estyn, sydd ar gael ar y wefan.

## Diogelu

53 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn ymgyfarwyddo â pholisi Diogelu Estyn, ac yn cadw ato, mewn arolygiad.

## Cod ymddygiad

54 Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cadw at y 'Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr', a byddant:

- yn gwneud eu gwaith ag uniondeb, cwrteisi a sensitifrwydd priodol
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith

55 Ni all gwybodaeth na dogfennau sy'n benodol i'r ysgol / UCD gael eu copïo na'u rhannu gydag unrhyw unigolyn sydd heb gysylltiad â'r arolygiad. Mae sail dystiolaeth yr arolygiad fel y'i disgrifir yn y dogfennau arweiniad yn eiddo i Estyn.

56 Yn ddarostyngedig i'r angen am gyfrinachedd, fel yr amlinellir yn **Atodiad B**, gall arolygwyr cymheiriaid rannu gyda'u hysgol / UCD wybodaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad am brosesau a gweithdrefnau Estyn. Fodd bynnag, os byddant yn dymuno rhannu dogfennau penodol neu enghreifftiau o arfer a welwyd yn ystod yr arolygiad, yna rhaid iddynt gael caniatâd yr ysgol / UCD dan sylw.

57 Caiff arolygwyr cymheiriaid eu hannog i ddefnyddio'r profiad a gafwyd trwy eu hyfforddiant a'u defnydd fel arolygydd cymheiriaid yn eu hysgol / UCD eu hunain i gynorthwyo â'r broses wella a datblygu a gweithredu gweithdrefnau hunanwerthuso.

## Gwrthdaro buddiannau

58 Cyn cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi, bydd arolygwyr cymheiriaid yn datgan unrhyw fuddiannau personol neu broffesiynol posibl sy'n gwrthdaro yn gysylltiedig ag ysgolion neu UCDau eraill. Bydd y gwrthdaro hwn yn cynnwys unrhyw gysylltiadau, perthynas neu wybodaeth flaenorol neu bresennol am ysgolion neu UCDau eraill ac unrhyw ddyletswyddau y gwnaethant ymgymryd â nhw fel dilyswyr allanol. Yn sgil hynny, mae'n rhaid i arolygwyr cymheiriaid roi gwybod i Estyn am unrhyw newid i'w statws cyn gynted ag y bydd yn digwydd.

59 Ni fydd arolygydd cymheiriaid yn cael ei ddefnyddio mewn ysgol / UCD y mae wedi'i eithrio ohoni o fewn cyfnod tair blynedd. Fodd bynnag, gellid ymestyn y cyfnod hwn am ddwy flynedd arall yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os oes gan arolygydd cymheiriaid unrhyw amheuaeth neu mae'n nodi unrhyw amgyffrediad o wrthdaro buddiannau, rhaid iddo roi gwybod i Estyn ar unwaith.

## Atodiad A: Cymhwyster ar gyfer rôl yr arolygydd cymheiriaid

**Rhaid i arolygwyr cymheiriaid fodloni pob un o'r gofynion canlynol. Rhaid iddynt:**

- fod yn gyflogedig mewn ysgol neu UCD yng Nghymru ar hyn o bryd
- cael profiad mewn swydd barhaol fel uwch arweinydd yng Nghymru gyda chyfrifoldeb sylweddol am ysgol gyfan / UCD
- o leiaf 5 mlynedd o brofiad fel athro effeithiol yng Nghymru
- cymeriad da a'r gallu i weithio'n ddiogel
- meddu ar wybodaeth gyfredol (yn berthnasol i'r sector dan sylw)

Ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCD, **rhaid** i arolygwyr cymheiriaid:

- gael eu cyflogi ar y raddfa gyflog uwch – byddai pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol mewn ysgol gynradd neu ysgol arbennig yn ymgymryd â'r rôl hon; neu
- fod yn bennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol mewn ysgol uwchradd; neu
- fod yn athro â gofal am uned cyfeirio disgyblion yng Nghymru

**Mae rhinweddau hanfodol arolygwyr cymheiriaid yn cynnwys:**

- gonestrwydd, uniondeb a phriodoldeb
- cyfathrebu llafar da
- medrau ysgrifennu datblygedig
- medrau TGCh da
- y gallu i hel eich meddyliau'n rhesymegol
- y gallu i bwyso a mesur tystiolaeth yn ofalus
- y gallu i lunio barnau cadarn
- y gallu i esbonio ac amddiffyn gwerthusiadau
- y gallu i weithio fel aelod o dîm
- parodrwydd a gallu i weithio'n hyblyg
- y gallu i gadw at y gofyniad am gyfrinachedd llwyr

**Gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg**

Rhaid i bob arolygydd cymheiriaid sy'n dymuno cael ei ddefnyddio mewn arolygiad o ysgolion neu UCDau Cymraeg a dwyieithog lwyddo ym mhob agwedd ar y cwrs hyfforddiant cychwynnol, a bod yn rhugl mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar.

Bydd arolygwyr cymheiriaid sy'n llwyddo ym mhob agwedd ar y cwrs hyfforddiant cychwynnol, ac yn rhugl mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar, yn gymwys i gael eu defnyddio mewn arolygiadau naill ai mewn ysgolion neu UCDau Cymraeg, dwyieithog neu Saesneg.

## Bod yn Arolygydd Ychwanegol i Estyn

Mae arolygwyr cymheiriaid sydd wedi ymgymryd â thri arolygiad neu fwy yn foddhaol, yn gallu gwneud cais i newid eu rôl i rôl Arolygydd Ychwanegol i Estyn pan na fyddant yn cael eu cyflogi mwyach mewn swydd barhaol mewn darparwr addysg yng Nghymru. Dylai arolygwyr cymheiriaid hysbysu Estyn pan fydd eu statws cyflogaeth yn newid, ac os ydynt yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer rôl Arolygydd Ychwanegol. Bydd y penodiad yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn Cyfarwyddwr Cynorthwyol perthnasol Estyn.

## Bod yn Arolygydd Cofrestredig i Estyn

Gall arolygwyr cymheiriaid sydd wedi ymgymryd â thri arolygiad neu fwy ac wedi cael graddau A/B ar eu FfGA wneud cais i fod yn arolygydd cofrestredig arweiniol. I fod yn arolygydd cofrestredig, rhaid i'r arolygydd cymheiriaid lwyddo mewn cwrs hyfforddiant asesedig ac arolygiad asesedig; gellir cael manylion am sut i wneud cais ar wefan Estyn o dan swyddi gwag cyfredol. Gall yr arolygwyr cymheiriaid hynny sydd hefyd yn arolygwyr cofrestredig hyfforddedig barhau i gael eu defnyddio fel arolygydd cymheiriaid yn ystod arolygiadau Estyn tra byddant yn parhau i gael eu cyflogi gan eu hysgol. Ar ôl gadael ei gyflogaeth yn yr ysgol, ni fydd yr arolygydd yn gallu cael ei ddefnyddio fel arolygydd cymheiriaid mwyach, oni bai ei fod yn symud i ysgol arall. Fodd bynnag, gall barhau i dendro am waith fel arolygydd cofrestredig.

## Atodiad B: Protocol ac arweiniad ar gyfer arolygwyr cymheiriaid

### Egwyddorion cyffredinol

Daw arolygwyr cymheiriaid â safbwynt ymarferwr presennol i arolygiad. Y nod yw i bob tîm arolygu gynnwys arolygydd cymheiriaid. Mae arolygydd cymheiriaid yn aelod llawn o'r tîm a bydd ganddo'r un ystod a math o gyfrifoldebau ag aelodau eraill o'r tîm.

Bydd arolygwyr cymheiriaid yn ymweld â dosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu a gweithgareddau arolygu eraill yn yr un modd ag aelodau tîm eraill a byddant yn gallu cyfrannu at farnau'r tîm ar bob agwedd sy'n cael ei harolygu. Yn yr un modd ag aelodau tîm eraill, mae'n ofynnol i arolygydd cymheiriaid gyflwyno'r dystiolaeth a'r barnau gofynnol ar y ffurflen farnau electronig a ddarperir yn yr YAR, cyn gadael yr ysgol / UCD ar ddiwedd arolygiad.

Bydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu cyflogi mewn ysgolion / UCDau yng Nghymru. Yn gyffredinol, byddant yn uwch reolwyr gydag o leiaf 5 mlynedd o brofiad addysgu. Hefyd, byddant yn gyfarwydd â gofynion diweddaraf perthnasol y cyfnod sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol neu ofynion cyrff arholi / dyfarnu, ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru.

### Mae cyfranogiad arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiadau:

- yn cyfrannu at arbenigedd timau arolygu ac yn ymestyn rhan ysgolion yn y broses arolygu
- yn hybu dealltwriaeth ysgolion / UCDau o arolygu
- yn galluogi rhannu arfer dda a rhagorol
- yn helpu i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen ar ysgolion / UCDau i ymgymryd â hunanwerthuso yn effeithiol
- yn galluogi unigolion i gael mewnwelediad gwell ar y broses arolygu yn ogystal â darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer eu datblygiad proffesiynol eu hunain

### Rôl arolygwyr cymheiriaid

Bydd arolygwyr cymheiriaid yn aelod llawn o'r tîm arolygu, er nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Estyn. Bydd yn ofynnol iddynt:

- arsylwi sesiynau a gweithgareddau eraill
- gwrando ar ddysgwyr
- craffu ar samplau o waith
- cymryd rhan mewn trafodaethau â staff ac eraill
- archwilio dogfennau
- gwerthuso effaith polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r darparwr
- arwain ar faes arolygu neu agwedd

- ysgrifennu adrannau o'r adroddiad, y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Arolygydd Cofnodol ar ddiwedd yr arolygiad gan ddefnyddio'r ffurflen farnau electronig a ddarperir gan Estyn

**Cyfrifoldebau arolygwyr cymheiriaid**

**Bydd arolygwyr cymheiriaid:**

- yn meddu ar wybodaeth ymarferol am arweiniad y sector ar gyfer arolygu ysgolion / UCDau
- yn gweithredu yn unol â'r cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr
- yn gyfarwydd â'r protocol a'r arweiniad hwn ar rôl yr arolygydd cymheiriaid
- yn meddu ar ddealltwriaeth o'r nodyn briffio cyn-arolygiad ac unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall
- yn cwblhau dogfennau arolygu, gan gynnwys ffurflenni gwerthuso electronig
- yn cyfrannu at gyfarfodydd y tîm arolygu
- yn cyfrannu at farnau corfforaethol
- yn arwain ar feysydd arolygu neu agweddau, yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol
- yn ysgrifennu adrannau o'r adroddiad, yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol
- yn mynychu unrhyw gyfarfod a gynhelir yn ystod wythnos yr arolygiad, pan roddir adborth i'r ysgol / UCD ar agweddau ysgol / UCD gyfan
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod yr arolygiad

**Ni fydd angen i arolygwyr cymheiriaid:**

- fynychu unrhyw gyfarfodydd yn gysylltiedig â'r arolygiad cyn cyfnod yr arolygiad
- mynychu unrhyw gyfarfodydd a gynhelir ar ôl cyfnod yr arolygiad ar y safle
- adolygu unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n dod i law ar ôl cyfnod yr arolygiad ar y safle

**Cyfrifoldebau'r Arolygydd Cofnodol**

- sefydlu cysylltiad â'r arolygwyr cymheiriaid
- amlinellu rôl benodol arolygwyr cymheiriaid yn ystod yr arolygiad
- gwirio bod y cydlynydd arolygu wedi trefnu i arolygwyr cymheiriaid fynd at bob dogfen berthnasol drwy'r YAR cyn dechrau'r arolygiad
- briffio'r darparwr sy'n cael ei arolygu am rôl arolygwyr cymheiriaid
- cynllunio gwaith arolygwyr cymheiriaid yn ystod cyfnod yr arolygiad ar y safle
- sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio fel aelod llawn o'r tîm
- sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn gwybod am y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd tîm a gweithgareddau arolygu eraill
- sicrhau ansawdd gwaith arolygwyr cymheiriaid
- rhoi adborth ar berfformiad arolygwyr cymheiriaid

- sicrhau bod arolygwyr cymheiriaid yn gwybod am werthoedd craidd a pholisïau Estyn (er enghraifft mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a bwlio), ac yn eu dilyn.

**Gweithgareddau yn y broses arolygu**

### Cyn yr arolygiad

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cymheiriaid** | ➢ ymgyfarwyddo ag arweiniad y sector<br>➢ ymgyfarwyddo â'r protocol a'r arweiniad hwn ar rôl yr arolygydd cymheiriaid<br>➢ derbyn cyfarwyddiadau ar gyfer mynd i mewn i'r Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) i allu cael at yr holl ddogfennau angenrheidiol |
| **Yr Arolygydd Cofnodol** | ➢ cael enw a gwybodaeth gefndir am yr arolygydd cymheiriaid trwy'r YAR a'r system Proffiliau Arolygwyr a neilltuo rolau a chyfrifoldebau i'r arolygydd cymheiriaid<br>➢ cadarnhau gyda'r arolygydd cymheiriaid fod y cydlynydd arolygu wedi trefnu iddo/iddi allu mynd at yr YAR cyn dechrau'r arolygiad |

### Yn ystod yr arolygiad a chyn gadael yr ysgol / UCD

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cymheiriaid** | ➢ yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol, ymgymryd â'r un tasgau ag aelodau eraill y tîm yn y cyfarfod tîm cyn i'r arolygiad ddechrau<br>➢ gweithio trwy gydol yr arolygiad o dan gyfarwyddyd yr Arolygydd Cofnodol<br>➢ cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm<br>➢ archwilio gwaith disgyblion<br>➢ arsylwi dosbarthiadau a chwblhau teithiau dysgu a gweithgareddau eraill<br>➢ gwrando ar ddysgwyr<br>➢ cwblhau pob dogfen fel y bo'n briodol<br>➢ cynnal deialog broffesiynol gydag athrawon ar ôl arsylwi gwersi<br>➢ cyfrannu at goladu canfyddiadau, tystiolaeth ategol ac ysgrifennu'r adroddiad arolygu<br>➢ sicrhau bod yr Arolygydd Cofnodol yn cael pob dogfen ysgrifenedig berthnasol yn y fformat rhagnodedig, mynychu unrhyw gyfarfodydd adborth ar agweddau ysgol / UCD gyfan a gynhelir yn ystod wythnos yr arolygiad a, lle y bo'n briodol, cynorthwyo â rhoi adborth yn gysylltiedig â'r agwedd/agweddau a/neu'r maes/meysydd arolygu y mae'n gyfrifol amdanynt<br>➢ dychwelyd holl ddogfennau arolygu'r ysgol / UCD |
| **Yr Arolygydd Cofnodol** | ➢ monitro gwaith yr arolygydd cymheiriaid a darparu cymorth fel y bo'n briodol<br>➢ sicrhau bod yr arolygydd cymheiriaid yn chwarae rhan lawn yn yr arolygiad<br>➢ sicrhau bod yr arolygydd cymheiriaid yn cyfrannu at y barnau corfforaethol |

**Ar ôl yr arolygiad**

| | |
|---|---|
| **Yr arolygydd cymheiriaid** | ➢ adolygu'r Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) drwy'r YAR |
| **Yr Arolygydd Cofnodol** | ➢ rhoi adborth i'r arolygydd cymheiriaid am ansawdd ei waith yn ystod yr arolygiad a llenwi'r ffurflen gwerthuso arolygydd (FfGA) yn yr YAR. |

Dylai adborth yr Arolygydd Cofnodol i arolygwyr cymheiriaid ymwneud â chael tystiolaeth, llunio barnau, cyfathrebu ac ymddygiad.

**Defnyddio arolygwyr cymheiriaid**

Bydd arolygwyr cymheiriaid:

- yn cael eu defnyddio mewn ysgolion / UCDau sy'n gwasanaethu disgyblion o'r un ystod oedran â'u hysgol / UCD eu hunain
- yn cael eu defnyddio mewn ysgol / UCD lle nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau personol na phroffesiynol
- ni fydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio os yw eu cyflogwr / ysgol / UCD mewn categori gweithgarwch dilynol statudol

Bydd Estyn yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiad, ond ni all roi unrhyw sicrwydd o hynny.

**Hyfforddiant**

Amcanion digwyddiadau hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid a hyfforddiant diweddaru blynyddol yw galluogi darpar arolygwyr cymheiriaid i ddeall y broses arolygu, yr egwyddorion sy'n sylfaen i'r broses a'r meini prawf ar gyfer gwerthusiadau.

**Ni** fydd darpar arolygwyr cymheiriaid yn gymwys i gymryd rhan yn y cwrs hyfforddiant asesedig cychwynnol er mwyn cymhwyso'n arolygydd cymheiriaid os yw eu cyflogwr / ysgol / UCD mewn categori gweithgarwch dilynol statudol ar hyn o bryd.

**Gwerthuso**

Bydd Estyn yn monitro gwaith arolygwyr cymheiriaid. Bydd copi o'r ffurflen gwerthuso arolygydd (FfGA) wedi'i llenwi ar gael i arolygwyr cymheiriaid drwy eu proffil arolygydd.

## Atodiad C: Iechyd a diogelwch y tîm arolygu

Mae gan bob arolygydd ac arolygydd cymheiriaid gyfrifoldeb i wneud yn siŵr bod eu harferion gweithio trwy gydol yr arolygiad yn cyd-fynd â rheoliadau iechyd a diogelwch.

Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn gwneud yn siŵr bod y darparwr yn hysbysu’r tîm arolygu am y trefniadau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â’r arolygiad. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybod am yr holl weithdrefnau ymadael mewn argyfwng yn ogystal â’r rhagofalon i’w cymryd mewn ardaloedd ar safle’r darparwr lle y bydd lefel uchel bosibl o risg yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch. Ni fydd unrhyw aelod o’r tîm arolygu yn cyflawni unrhyw weithgareddau arolygu cyn cael briff priodol ar iechyd a diogelwch.

Nid yw arolygwyr ac arolygwyr cymheiriaid yn gyfrifol am arolygu p’un a yw darparwyr yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch; caiff hyn ei archwilio gan awdurdodau eraill. Fodd bynnag, bydd yr Arolygydd Cofnodol ac aelodau’r tîm arolygu yn hysbysu’r darparwr ar unwaith am unrhyw faterion sy’n effeithio’n ddifrifol ar iechyd, diogelwch a lles y dysgwyr.

Lle y ceir problemau penodol, brys, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn paratoi nodyn i reolwr iechyd a diogelwch corff ariannu’r darparwr, gan anfon copïau ohono at uwch gydweithwyr yn Estyn.

Dylai pob arolygydd gofnodi cyswllt mewn argyfwng ar eu Proffil Arolygydd unigol, a fydd ar gael i’r Arolygydd Cofnodol os bydd argyfwng.

Gellir gofyn i arolygwyr cymheiriaid yrru i wahanol safleoedd darparwyr, neu i leoliadau hyfforddiant yn y gwaith neu leoliadau asesu. Dylai arolygwyr cymheiriaid sicrhau bod y car yn addas i’r ffordd fawr, wedi’i yswirio a bod modd cael cymorth os yw’r car yn torri i lawr. Os nad yw’r arolygydd cymheiriaid yn gyrru neu nid yw’n dymuno gyrru tra bydd yn gweithio ar arolygiad, dylai hysbysu’r Arolygydd Cofnodol pan fydd yn cysylltu am y tro cyntaf cyn yr arolygiad.